Hawdd ei ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Newidiadau i'r rheolau am warchod plant a chofrestru gofal dydd a datblyiad o Cynllun Cymeradwyo Gwirfodol

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl



Awst 2025

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o'r ymgynghoriad o'r enw:

**Gorchymyn Drafft Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2026 a'r Cynnig ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau.**



Efallai y byddwch chi angen help  i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â

**E-bost:**
ymgynghoriadgofalplantagwaithchwarae@llyw.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

Am y llyfryn yma 4

Beth sy'n efallai newid 6

Beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yma 7

Rydyn ni eisiau clywed gennych chi 8

Beth rydyn ni eisiau ei ddarganfod 10

Cadw pobl yn ddiogel 12

Rhan A – Eithriadau 13

Arall 34

Rhan B - Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol 35

Rhan C – Sut fyddai'r newidiadau yn gallu effeithio ar bobl 42

Beth fydd yn digwydd nesaf 43

# Am y llyfryn yma

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ni ydy **Llywodraeth Cymru**.




Mae yna reolau yng Nghymru ar gyfer pobl sy'n gallu gofalu am blant heb eu rhieni yn bresennol.



Rhaid i rai pobl sy'n gofalu am blant gofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd.



Mae gwarchodwr plant yn berson sy'n darparu gofal i blant mewn cartref.



Mae darparwyr gofal dydd yn darparu gofal i blant mewn lleoedd heblaw cartref.



Mewn rhai sefyllfaoedd, does dim angen i bobl gofrestru. Mae'r rheolau am hyn yn cael eu galw yn **eithriadau**. Mae'r bobl wedi'u **heithrio**.




Os ydy pobl wedi'u **heithrio**:

- Does **dim** rhaid iddyn nhw gofrestru gydag **Arolygiaeth Gofal Cymru**.
- Does **dim** rhaid iddyn nhw ddilyn yr holl reolau ar gyfer gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd.



Mae **Arolygiaeth Gofal Cymru** yn edrych i weld bod gwasanaethau gofal plant yn ddiogel ac yn cael eu rhedeg yn iawn.

# Beth sy'n efallai newid




Rydyn ni'n edrych i weld os ydy'r rheolau newydd posibl am **eithriadau** yn deg.



Dywedodd rhai pobl wrthyn ni y dylai fod yna **Gynllun Cymeradwyo Gwirfoddol.**




Fe fyddai hwn yn gynllun ar gyfer darparwyr sydd wedi'u heithrio. Maen nhw'n gallu dewis ymuno, ond fe fydden nhw'n dilyn llai o reolau na phe baen nhw wedi'u cofrestru gydag **Arolygiaeth Gofal Cymru**.



Fe fyddai'r cynllun newydd yn cael ei alw'n **Gynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau.**

# Beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yma



Rhwng gwanwyn 2024 a Medi 2025, fe wnaethon ni siarad â thua 400 o bobl.

Fe wnaethon ni siarad â:



- Plant, rhieni, gofalwyr.



- Pobl sy'n gofalu am blant. Wedi cofrestru a heb eu cofrestru.




Ym mis Mehefin 2024, fe wnaethon ni sefydlu grŵp i helpu gyda'r gwaith yma.

# Rydyn ni eisiau clywed gennych chi




Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am y newidiadau.




Darllenwch y llyfryn yma. Yna atebwch y cwestiynau yn y **Ffurflen Ymateb**.




Anfonwch eich atebion i ni erbyn **3 Tachwedd 2025.**



Rydych chi'n gallu:

Llenwi'r ffurflen ar-lein.



Lawrlwytho'r ffurflen a'i hanfon drwy e-bost at: ymgynghoriadgofalplantagwaithchwarae@llyw.cymru



Postio'r ffurflen i:

Y Gorchymyn Eithriadau a'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol

Adran Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

# Beth rydyn ni eisiau ei ddarganfod

Mae yna **3 rhan** i beth rydyn ni eisiau ei wybod. Rydych chi'n gallu ateb pob rhan, neu dim ond rhai.




## Rhan A - Eithriadau

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am y newidiadau posibl i'r eithriadau.



## Rhan B – Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol

Rydyn ni eisiau gwybod os dylai yna fod **Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol**.



Fe fyddai hyn ar gyfer rhai pobl sy'n rhedeg gofal plant, gwaith chwarae, neu weithgareddau i blant.



Rydyn ni eisiau gwybod pwy ddylai allu ymuno â'r cynllun a sut ddylai gweithio.




## Rhan C - Effaith

Rydyn ni eisiau gwybod sut mae'r newidiadau yn gallu effeithio ar:

- Yr iaith Gymraeg.
- Hawliau plant.
- Meysydd pwysig eraill.

# Cadw pobl yn ddiogel




Mae cadw plant a phobl ifanc yn saff yn bwysig iawn. Mae hyn yn cael ei alw yn **diogelu**.




Mae yna reolau diogelu o'r enw y **Cod Ymarfer Diogelu**.




Mae disgwyl i bob darparwr ddilyn y **Cod Ymarfer Diogelu**. Mae hyn yn meddwl:

- Pob darparwr gofal plant cofrestredig.
- Pobl sy'n gweithio gyda phlant neu'n rhedeg gweithgareddau, hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi'u cofrestru.



Efallai y byddwn ni'n gwneud newidiadau i'r **Cod Ymarfer Diogelu**.




Rydyn ni'n meddwl am sut y byddai newidiadau i'r Eithriadau a gwneud **Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol** yn gweithio gydag unrhyw newidiadau i'r **Cod.**



# Rhan A – Eithriadau

Eithriadau ydy sefyllfaoedd lle nad oes angen i bobl gofrestru i ofalu am blant.

Rydyn ni eisiau:



- Gwneud yn siŵr bod plant yn gallu mynd i leoedd lle maen nhw'n gallu cael hwyl, dysgu a thyfu.
- Gofyn i bobl gofrestru dim ond os oes angen iddyn nhw wneud hynny.



- Cadw plant yn ddiogel ym mhob man, nid dim ond mewn lleoliadau cofrestredig.
- Gwneud yn siŵr bod gofal plant a gweithgareddau yn fforddiadwy ac ar gael i deuluoedd.



- Gwneud y rheolau yn syml ac yn glir i bawb eu deall.



Rydyn ni'n gwybod bod darparwyr cofrestredig a heb eu cofrestru yn gwneud gwaith gwych.




Rydyn ni eisiau i blant fod yn ddiogel a mwynhau gweithgareddau.



Dydyn ni ddim yn ceisio cofrestru pawb sy'n gweithio gyda phlant.

# Cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru

Mae angen i rai gwarchodwyr plant a gwasanaethau gofal dydd yng Nghymru gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.



Rhaid iddyn nhw ddilyn rheolau pwysig i helpu i gadw plant yn ddiogel ac yn iach.

I gofrestru rhaid iddyn nhw:



- Llenwi ffurflen gais gyda'r wybodaeth a'r dogfennau cywir.




- Cael y cymwysterau cywir i ofalu am blant.

- Pasio gwiriadau cefndir, o'r enw gwiriadau DBS, i ddangos eu bod yn ddiogel i weithio gyda phlant.



- Os ydyn nhw'n warchodwr plant, rhaid i bawb yn eu cartref sydd yn 16 oed neu'n hŷn hefyd basio gwiriadau cefndir.



- Gwneud yn siŵr bod y lle maen nhw'n gofalu am blant yn ddiogel ac yn addas iddyn nhw.



- Cael y nifer cywir o staff ar gyfer nifer y plant.



- Gwneud hyfforddiant i gadw eu sgiliau yn gyfredol.




- Gadael i **Arolygiaeth Gofal Cymru** archwilio eu lleoliad i edrych ar ansawdd y gofal.



- Cadw safonau da bob dydd.



- Dweud wrth **Arolygiaeth Gofal Cymru** os bydd unrhyw beth pwysig yn newid.



- Gwybod bod eu gwybodaeth gofrestredig yn gyhoeddus a bod modd ei gweld ar-lein.

# Newidiadau i'r rheolau am eithriadau

## Rhieni, perthnasau, gofalwyr maeth a phobl sy'n byw gyda phlentyn

### Y rheolau nawr



- Does dim angen i rieni, rhieni maeth ac aelodau teulu plentyn gofrestru i ofalu amdanyn nhw.




- Mae hyn yn helpu teuluoedd i ofalu am blant heb lawer o waith papur.

### Pam mae hyn yn gallu newid




- Dydy'r gyfraith a'r canllawiau ddim bob amser yn cyfateb. Mae hyn yn gallu bod yn ddryslyd.

## Beth rydyn ni eisiau ei newid

Rydyn ni eisiau:




- Gwneud i'r gyfraith a'r canllawiau gyd-fynd.



- Gwneud hi'n glir pwy sydd angen cofrestru fel gwarchodwr plant.




- Caniatáu i rai perthnasau a phobl sy'n byw gyda'r plentyn gofrestru fel gwarchodwyr plant. Fe fydd angen iddyn nhw:
    - Peidio â bod yn rhiant i'r plentyn na bod â chyfrifoldeb rhieni amdanyn nhw.
    - Peidio â bod yn ofalwr maeth y plentyn.
    - Peidio â gofalu am y plentyn yng nghartref y plentyn.
    - Bod ar gael i ofalu am blant eraill o'r tu allan i'w teulu.

## Nanis, au pairs a gwarchodwyr babanod (babysitters)



Mae’r rhain yn bobl sy’n gofalu am nifer fach o blant.




Maen nhw’n darparu gofal yng nghartref y plant neu rywle fel gwesty.



Maen nhw’n gofalu am 1 neu 2 deulu ar y tro.

**Y rheolau nawr**




Mae yna 3 rheol sy'n esbonio pryd does dim angen iddyn nhw gofrestru:

## 1. Nanis ac au pairs

Does dim angen iddyn nhw gofrestru fel gwarchodwr plant os ydyn nhw:



- dim ond gofalu am blant o ddim mwy na 2 deulu ar yr un pryd.



- gweithio i'r rhieni i ofalu am eu plant yn un o gartrefi'r teulu.





## 2. Gwarchodwyr babanod gyda'r nos

Does dim angen iddyn nhw gofrestru os ydyn nhw'n gofalu am blant rhwng 6:00pm a 2:00am yn unig.

## 3. Gwarchodwyr babanod mewn gwestai neu dŷ gwesty

Does dim angen iddyn nhw gofrestru os ydyn nhw'n gofalu am blant yn unig:




- rhwng 6:00pm a 2:00am mewn gwesty neu dŷ gwesty,




- **ac** maen nhw'n gofalu am blant o ddim mwy na 2 deulu ar yr un pryd yn unig.

### Pam rydyn ni eisiau gwneud y newid yma



Rydyn ni eisiau:

- Gwneud y rheolau yma yn gliriach
- Cadw gwahaniaeth rhwng gwarchodwyr plant a gwarchodwyr babanod (babysitters).




### Beth rydyn ni eisiau ei newid

Cael yr un rheolau ar gyfer nanis, au pairs a gwarchodwyr babanod.




Cael gwared ar y terfyn amser rhwng 6:00pm a 2:00am ar gyfer gwarchodwyr babanod.




Caniatáu i gwarchodwyr babanod ofalu am blant o ddim mwy na 2 deulu ar yr un pryd yn unig



Mae teuluoedd yn gwneud y cytundebau gyda'r gwarchodwyr babanod, nani neu au pair i ofalu am eu plant.



Caniatáu i warchod babanod ddigwydd yng nghartref plentyn neu gartref y teulu arall.




Caniatáu i warchod babanod ddigwydd yn rhywle arall, fel gwesty neu dŷ gwesty.



Fyddai dim angen i ofalwyr plant gofrestru pan fyddan nhw'n gweithio o fewn y rheolau.



## Y rheolau nawr

Does dim angen i rai gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc 11 oed a hŷn gofrestru. Er enghraifft, clybiau ieuenctid neu grwpiau Cymorth ieuenctid.




## Beth rydyn ni eisiau ei newid

Rydyn ni eisiau gostwng yr oedran o 11 i 10 oed mewn rhai sefyllfaoedd.

## Pam rydyn ni eisiau gwneud y newid yma



- Er mwyn cefnogi plant i gael yr help maen nhw ei angen wrth iddyn nhw symud i'r ysgol uwchradd.



- Helpu gyda'u hanghenion dysgu a chymdeithasol.

## Hyfforddi a dysgu



Mae hyfforddi yn meddwl helpu gyda sgiliau, fel pêl-droed neu actio.



Mae dysgu yn meddwl rhoi cymorth ychwanegol gyda dysgu, fel gwaith ysgol.



**Y rheolau nawr**

Does dim angen i bobl gofrestru os ydyn nhw'n cynnig hyfforddiant neu ddysgu mewn 2 o'r mathau yma o weithgaredd:

- Chwaraeon
- Celfyddydau perfformio, fel dawns neu ddrama
- Celf a chrefft
- Gwaith ysgol
- Astudiaeth grefyddol neu ddiwylliannol



**Ond dim ond os ydy'r:**

- plant yn 5 oed neu'n hŷn,
- **neu** plant 4 oed ac iau yn aros am 4 awr neu lai.

## Beth rydyn ni eisiau ei newid

Rydyn ni eisiau i'r rheolau newydd ddweud:



- Dim ond am 2 awr neu lai y dylai plant 4 oed ac iau aros cyn bod angen cofrestru.



- Os ydy rhiant neu ofalwr y plentyn yn aros gyda nhw, fydd dim angen iddyn nhw gofrestru.



- Mae plant 5 oed a hŷn yn gallu parhau i fynychu am gyfnod hirach.



- Rydyn ni hefyd eisiau newid y categoriau. Y rhai newydd fydd:

  - Chwaraeon

  - Celfyddydau

  - Cymorth addysgol mewn gwahanol bynciau

  - Astudiaeth grefyddol neu ddiwylliannol



- Dim ond mewn 1 o’r mathau o weithgareddau maen nhw’n gallu darparu hyfforddiant neu ddysgsu.

## Gofal mewn ysgolion

### Y rheolau nawr




Does dim angen i ysgolion gofrestru os ydyn nhw'n gofalu am blant fel rhan o'r addysg maen nhw'n ei ddarparu.

### Beth rydyn ni eisiau ei newid

Rydyn ni eisiau:



- Newid y rheol fel ei bod yn berthnasol i blant 3 oed a hŷn yn unig.



- Os ydy ysgolion yn gofalu am blant 2 oed neu iau, rhaid iddyn nhw gofrestru'r rhan honno o'r ysgol fel gofal dydd.

## Pam rydyn ni eisiau gwneud y newid yma




- Mae angen llawer o ofal ar blant 2 oed ac iau.



- Mae'r plant yma angen gofal dydd yn fwy nag addysg.

# Gwasanaethau wedi'u hatal dros dro




Mae hyn yn meddwl bod pobl sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cael eu tynnu oddi ar y gofrestr am gyfnod penodol i gywiro pethau.



Mae hyn yn gallu digwydd am sawl rheswm.
Er enghraifft:

- os nad ydyn nhw wedi dilyn y rheolau
- os bydd eu hadeilad yn dod yn anaddas
- neu os oes pryderon am ddiogelwch plant yn eu gofal.



**Y rheolau nawr**

Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau wedi'u hatal yn gallu parhau i ddarparu gofal am 2 awr neu lai y dydd.



**Beth rydyn ni eisiau ei newid**

Rydyn ni eisiau newid y rheolau fel nad ydyn nhw'n gallu darparu unrhyw ofal pan fyddan nhw'n cael eu hatal dros dro.

## Y rheolau nawr

Does dim angen i bobl gofrestru os:




- Maen nhw'n gofalu am blentyn am 2 awr neu lai y dydd.




- Maen nhw'n gofalu am blentyn am 5 diwrnod neu lai y flwyddyn ac yn dweud wrth **Arolygiaeth Gofal Cymru**.



- Maen nhw'n rhoi hyfforddiant neu addysg mewn gweithgareddau penodol.

## Beth rydyn ni'n meddwl ei newid



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chin feddwl am:

- Gwneud y rheolau yma yn berthnasol i blant 3 oed a hŷn yn unig, os nad ydy'r rhiant gyda'r plentyn.
- Gwneud y rheolau yma yn berthnasol i blant 2 oed ac iau, os ydy'r rhiant yn yr un adeilad neu o gwmpas.

## Risgiau



Os ydyn ni'n newid y rheolau i ddweud bod yn rhaid i bobl sy'n gofalu am blant 2 oed ac iau gofrestru, mae'n gallu cyfyngu ar faint o wasanaethau sydd ar gael ar gyfer y grŵp oedran yma.

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Mae pobl yn gallu newid fel eu bod yn gofalu am blant 3 oed neu'n hŷn yn unig, er mwyn osgoi gorfod cofrestru. Efallai y bydd rhai yn cau.




Mae hefyd yn gallu cynyddu cost gofal i blant 2 oed ac iau.



Efallai y bydd pobl yn penderfynu peidio â sefydlu gwasanaeth gofal plant, chwarae neu weithgareddau newydd. Gan na fyddan nhw'n gallu ei brofi cyn agor yn llawn.



Mae hefyd yn gallu gwneud y rheolau'n fwy dryslyd. Fe fydd mwy o reolau am oedran a lle mae gofal yn gallu cael ei ddarparu.

**Manteision**



Mae llawer o bobl yn meddwl bod cofrestru yn ffordd dda o wneud yn siŵr bod gofal yn ddiogel ac yn dda.



Gan fod angen mwy o ofal ar blant 2 oed ac iau, fe fyddai arolygiadau yn edrych i weld bod eu hanghenion gofal yn cael eu hateb.



Mae pobl yn gallu cynnig mwy o oriau o ofal i blant 2 oed ac iau. Fyddan nhw ddim yn gyfyngedig i ddarparu gofal am ddim ond 2 awr y dydd ar ôl iddyn nhw gofrestru.

Efallai y byddan nhw'n gallu cyflwyno rhaglenni sydd yn cael eu hariannu, fel **Cynnig Gofal Plant** i **Gymru a Dechrau'n Deg**.

Efallai y bydd teuluoedd yn gallu cael budd-daliadau a chymorth ariannol gan y llywodraeth. Mae hyn yn bosibl os ydy'r gwasanaeth maen nhw'n ei ddefnyddio yn cael ei gofrestru.

## Arall



**Blwyddyn i gofrestru**

Os yw'r newidiadau uchod yn digwydd, byddai pobl sydd angen cofrestru yn cael blwyddyn i wneud hynny. Byddai hynny o'r diwrnod pan fyddai newidiadau'n cael eu gwneud.

# Rhan B - Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol



Rydyn ni'n meddwl am greu **Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol**.



Mae hyn ar gyfer pobl sy'n darparu gofal plant, gwaith chwarae, neu weithgareddau i blant. Ond does dim angen cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd.

## Ein syniadau ar gyfer creu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol



Mae'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn ffordd o ddangos bod darparwyr yn bodloni gofynion sylfaenol.




Mae darparwyr gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau yn gallu dewis ymuno.



Fe fyddai angen iddyn nhw ddangos i **Arolygiaeth Gofal Cymru** eu bod yn bodloni'r gofynion sylfaenol. Os ydyn nhw'n bodloni'r gofynion sylfaenol hynny fe fydden nhw'n cael eu 'cymeradwyo'.

## Nodau'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol

3 prif nod y cynllun fyddai:




- Helpu teuluoedd cymwys i ddefnyddio Gofal Plant Di-dreth neu Gofal Plant Credyd Cynhwysol i dalu am ofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau.



- Edrych bod darparwyr ar y cynllun yn bodloni safonau sylfaenol pan fyddan nhw'n ymuno. Mae hyn yn gallu helpu rhieni i wybod mwy am y gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio.




- Ei gwneud hi'n haws i gynghorau lleol wybod pwy sy'n darparu gwasanaethau yn eu hardal.

## Beth fyddai'n rhaid i ddarparwyr ei wneud i fod ar y cynllun





Fe fyddai'n rhaid i bobl ar y cynllun:

- Bod o leiaf 18 oed.
- Gwneud hyfforddiant penodol gan gynnwys diogelu, cymorth cyntaf a gofal plant sylfaenol.
- Pasio gwiriadau cefndir, o'r enw DBS.
- Dydyn nhw ddim wedi cael gwybod nad ydyn nhw'n gallu gweithio gyda phlant.
- Cael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.



- Cytuno i gadw plant yn ddiogel, trin bwyd yn ddiogel a meddwl am gyngor arfer gorau.


# Rheoli a goruchwylio




Mae hyn yn meddwl sut y bydden ni'n gwneud yn siŵr bod y cynllun yn gweithio ac yn ateb ein nodau.

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Fe fyddai **Arolygiaeth Gofal Cymru** yn rheoli'r cynllun ac yn cymeradwyo pobl i ymuno.



Fyddai pobl ar y cynllun ddim yn cael eu harchwilio gan Arolygiaeth Gofal Cymru.




Fe fyddai angen iddyn nhw wneud cais am gymeradwyaeth bob blwyddyn a byddai angen iddyn nhw dalu ffi.



Fe fyddai **Arolygiaeth Gofal Cymru** yn trosglwyddo manylion y bobl sydd ar y cynllun i'r cyngor lleol fyddai wedyn yn gallu eu helpu.



Fe fyddai angen i bobl ar y cynllun wneud yn siŵr eu bod yn dweud wrth **Arolygiaeth Gofal Cymru** os bydd unrhyw beth yn newid amdanyn nhw.

Fyddai Arolygiaeth Gofal Cymru ddim yn cymryd unrhyw gwynion am bobl ar y cynllun.




Pe bai pryderon nad ydy rhywun ar y cynllun yn cadw plant yn ddiogel, fe fyddai'r cyngor lleol yn cynnal gwiriadau.

Fe fyddai'r cyngor yn dweud wrth **Arolygiaeth Gofal Cymru** beth wnaethon nhw ei ddarganfod.



Mae pobl yn gallu cael gwrthod eu cymeradwyo neu eu tynnu o'r cynllun os nad ydyn nhw'n bodloni'r gofynion.




Os ydyn nhw'n anghytuno, mae ganddyn nhw 28 diwrnod i ddweud wrth **Arolygiaeth Gofal Cymru** pam.

Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn gallu tynnu'r bobl o'r cynllun os ydyn nhw'n credu bod angen gwneud hynny.

# Pwy fyddai'n gallu ymuno â'r cynllun




- Gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd sy'n cael eu rhedeg gan gyngor neu ysgol leol am 2 awr neu lai y dydd.

- Gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd sy'n gweithio am 2 awr neu lai y dydd cyn neu ar ôl ysgol.



- Gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd sy'n gweithio am 2 awr neu lai y dydd ar unrhyw adeg yn ystod y dydd.

- Gwarchodwyr babanod, nanis ac au pairs.



- Hyfforddwyr a thiwtoriaid ar gyfer chwaraeon, celfyddydau, cymorth addysg ac astudiaeth grefyddol am fwy na 2 awr. Mae hyn yn gallu cynnwys lleoedd lle mae plant yn aros dros nos i gael eu hyfforddi neu eu dysgu.



- Y rhai sy'n cynnig gofal dydd am 5 diwrnod neu lai y flwyddyn.

- Pobl sy'n gofalu am blant rhwng 12 ac 16 oed.

## Ffi ymuno



Rydyn ni'n credu y dylai fod ffi i ymuno â'r Cynllun. Yn Lloegr y ffi ydy £114.

# Rhan C – Sut fyddai'r newidiadau yn gallu effeithio ar bobl



Mae'r rhan yma am edrych ar yr effaith y byddai'r newidiadau yn ei gael.



Mae angen i ni:

- Mesur y risgiau a'r manteision o wneud newidiadau.
- Meddwl am y costau.
- Edrych ar sut mae'r newidiadau yn gallu effeithio ar blant, teuluoedd ac eraill.
- Meddwl am y Gymraeg a sut mae'r newidiadau yn gallu effeithio arni.





Rydyn ni'n gofyn cwestiynau am hyn i gyd yn y Ffurflen Ymateb.

# Beth fydd yn digwydd nesaf



Fe fyddwn ni'n gwrando ar beth rydych chi'n ei ddweud wrthyn ni. Fe fyddwn ni'n defnyddio beth rydych chi'n ddweud i helpu i wneud y newidiadau.




Fydd dim newidiadau yn cael eu gwneud tan o leiaf 2026 neu 2027.